

Y Casglwr

Rhif 83

Pris i'r aelodau: £7.50 y flwyddyn • Pris i'r cyhoedd: £3.50 y rhifyn

Gwanwyn 2005

Evan Roberts – Y Llyfrbryf o Llandderfel (2)

BU Evan Roberts yn symol am y rhan fwyaf o'i oes, yn Borweddiog droeon, a bu yna gyfnodau pan fu mewn cartref gwellhad yn y Rhyl. Ond er iddo fetu gweithio roedd ynddo ddycnwch a dyfalbarhad anghyffredin. Hyn fu'n ei yrru i ymchwilio, ac a'i gwnaeth, maes o law, yn brif hynafiaethydd Penllyn.

Ar ôl cyhoeddi ei gyfrol *Diwydiannau Coll*, derbyniodd ddiolchiadau lawer drwy gerddi canmol ac anfonwyd cyfrolau cyfarch iddo gan brif lenorion Cymru, megis Iorwerth Peate, Dyfnallt, Dewi Mai o Feirion, Gwenallt ac Ifor Williams, i enwi ond ychydig. Dyma a ddywedodd T. E. Nicholas am y Chwilotwr o Llandderfel:

Ei law yn gadarn ar y dorau gwichlyd
Yn gollwng allan gyfrinachau'n llu;
Ei lygaid treiddgar ar y membrn llychlyd
Yn ceisio coelion coll yr oes a fu.
Cael hanes ardal ar y cerrig beddau,
A mabinogi gwlad o'r Llyfrau Plwyf;
Mentro i'r dynder pell i geisio perlau,
A grym y môr yn taro ar ei rwyf.
Heb dâl na chlod na chyfoeth am ei lafur,
Heb hamdden ond munudau'n hwyr y dydd;
Ei galed law yn gyrru'r pin yn brysur
Heb ddim i'w arwain ond goleuni ffydd.
Daw eto newydd oes i gofio gwaith
Y gŵr a garodd lèn ei wlad a'i iaith.



Evan Roberts yn ŵr ifanc.

Anfonodd Niclas gopi cyfarch o'i gyfrol *Sonedau'r Carchar* iddo wedi'i llofnodi, 'I'm cyfaill Evan Roberts, gyda chofion carcharaidd – T. E. Nicholas, 2740.

Yn sgil cyhoeddi ei gyfrol *Diwydiannau Coll* a'i erthygl ar 'Y Ffatri Wlân yng Nghymru', a ymddangosodd yn yr *Hen Genhinen* yn 1928, derbyniodd lythyr oddi wrth Bob Owen Croesor yn ei ganmol i'r cymylau. Bu i newydd-deb y testun beri i Bob druan golli ei ben â hi, ac nid oedd ball ar ei eirdd iddo.

Felly, daeth cyfle yng Ngwanwyn 1929 i'r ddau gyfarfod o'r diwedd pan gyrhaeddodd cerdyn post i Fod Alaw yn hysbysu Evan Roberts – ac yntau ar y pryd yn ei wely ar ôl ysbaid o waeledd, y byddai Bob Owen yn galw heibio i'w weld oddi ar y trên 2.15, ar ei ffordd adref ar ôl darlithio yn Wrecsam. Cyrhaeddodd am 2.30 a bu ysgwyd llaw cynnes.

'Allwn i ddim meddwl am fynd trwy stesion Llandderfel heb alw i'ch gweled. Ond rhaid i mi beidio loetran yn hir, mae'n rhaid i mi gyrraedd y Bala (pedair milltir helaeth o ffordd) i ddal y trên pedwar – dyma'r trên olaf a gaf i fynd â mi i'r Penrhyn,' meddai.

Wedi tamiad o fwyd a pheth siarad am lyfrau, fe welodd Bob nifer o lyfrau a llythyrau ar fwrdd bychan gerllaw, ac yn eu mysg lythyr at Evan Roberts oddi wrth Eifion Wyn.

'Duw!' meddai, 'oeddech chwi yn cael llythyrau oddi wrth Eifion Wyn?'

'Oeddw'n, cefais amryw oddi wrtho', oedd yr ateb. Ar hynny bywiogodd Bob drwyddo.

'Dawst i, does gen i'r un llythyr oddi wrth Eifion Wyn,' meddai. 'Werthwch chwi'r rhain i mi?' Wedi hir drafod,

ildiodd Evan Roberts, a daethant i gytuno ar bris. Ond erbyn hynny, roedd hi'n ugain munud i bedwar, a neidiodd Bob i fyny,

'Damia, mi gollaf y trên!' ac ymaith ag ef heb y llythyrau. Ond yn ffodus, yr oedd Ellen, gwraig Evan, wedi deall yr amgylchiadau, ac wedi trefnu i John Jones, y cigydd lleol, fynd â Bob ar ei feic modur i ddal y trên, heb yn wybod iddo. Ac ymaith ag ef â'i ddiolch yn ddiwyfyn. Drannoeth, anfonwyd y llythyrau ar ei ôl, a dyma fu dechrau eu cyfeillgarwch mawr, a barhaodd tan y bu farw Bob.

Ar ôl hyn, bu yno ddegau o weithiau, yn aml i weld hen Gofnodion yr Eglwys, a threfnai Evan Roberts, ar bob ymweliad, i Bob Owen gael eu gweld yng nghludwch y cartre ym Mod Awel.

Dro arall, daeth heibio gyda'r Parch Richard Thomas, Bont Newydd, Arfon. Y tro hwnnw, yr oedd Bob wedi bod yn dioddef yn

drwm oddi wrth ei hen anhwylddeb, y gwynegon, ac heb lwyrr wella. Cwynai yn arw ei fod yn methu â chydio mewn pensil i allu sgrifennu. Daeth Evan â nifer o lyfrau a llawysgrifau ar y bwrdd iddynt eu chwilio, a gwneud copi ohonynt. Pan welodd Bob eu cynnwys, a'i fod yntau erioed wedi clywed amdanynt cyn hyn, neidiodd ar ei draed a gweiddi,

'Ple cefaist ti afael ar y rhain?' Ni fu fawr o dro yn dechrau eu copio, ac roedd wedi anghofio'n llwyr am ei ddolur a'i boen. Bu ymweliad Bob Owen ag Evan Roberts y tro hwn yn gyffur llawer gwell iddo na dim a gawsai gan ei feddygon; gwellhaodd ac ystwythodd drwyddo a dychwelodd adref yn ddyn newydd, a'i draed yn gwbl rhydd.

Dau gyfaill agos iawn oedd John Cowper Powys a Redwood Anderson. Daeth Evan Roberts i adnabod John Cowper Powys yn dda iawn wedi iddo ymgartrefu yng Nghorwen ar ôl ei gyfnod yn ddarlithydd yn yr Amerig yn ystod tridegau y ganrif ddiwethaf. Ni bu fawr o dro yn gohebu ag Evan Roberts, a maes o law daethant yn gyfeillion mynwesol a derbynai gyhoeddiadau lu Cowper Powys yn anrhegion ganddo.

(Parhad ar dudalen gefn)